Gwers: Bwyta'n Iach: Archwilio arferion bwyta'r boblogaeth

Amcanion Dysgu:
Dadansoddi data ar arferion bwyta.
Trafod data i ateb damcaniaethau.
Gwerthuso eu harferion eu hunain ac adolygu eu ffordd o fyw.

I ddechrau: Gan ddefnyddio'r graffiau dechreuol (taflunnydd), trafodwch y tueddiadau o ran bwyta ffrwythau a llysiau a chreision a fferins.	**Disgyblion** Dadansoddi'r graffiau a ddangosir ac ateb y cwestiynau. Rhoi rhesymau dros eu hatebion.	**Athro** Arwain sesiwn holi ac ateb am y graffiau. Dangos y graff cyntaf (gallech hefyd guddio'r labeli). Ai dynion neu ferched sy'n bwyta mwy o ffrwythau a llysiau? A yw siâp y graff fel y byddech yn ei ddisgwyl? Beth yw'r swm a argymhellir i'w fwyta bob diwrnod? Cyn dangos yr ail graff gofyn i'r disgyblion ragweld sut y bydd yn edrych.
Prif dasg: Gan ddefnyddio'r daenlen, trafodwch y data i ateb y ddamcaniaeth a nodir gan y dosbarth. Gwnewch gasgliadau ynghylch faint o ffrwythau a llysiau a gaiff ei fwyta.	**Disgyblion** Penderfynu beth y gallant ei archwilio o'r data a llunio ddamcaniaeth. Trafod data a llunio eu casgliadau.	**Athro** Ceir 2 daflen ddata, un ar lysiau wedi'u prosesu a llysiau ffres sy'n cael eu bwyta dros amser, a'r llall ar oedran, rhyw a nifer y dognau sy'n cael eu bwyta. Trafod y ddamcaniaeth y bydd y dosbarth yn ei harchwilio gyda'r disgyblion. Cynorthwyo'r disgyblion i drafod y data.
Sesiwn lawn: Adroddwch y canlyniadau, ac archwiliwch safle'r Adran Iechyd a'r ymgyrch 'Pump y Dydd'. Trafodwch faint dognau. Trafodwch arferion da neu trefnwch bod dyddiadur yn cael ei gadw i'w werthuso yn nes ymlaen.	**Disgyblion** Rhannu eu casgliadau gyda'r dosbarth. Cymharu eu syniadau â syniadau eraill. Gwneud gwaith ymchwil i'r ymgyrch 'pump y dydd' a chymharu hyn â'u harferion bwyta hwy.	**Athro** Hwyluso adborth a chyflwyno'r ymgyrch 'pump y dydd'. Trafod eu harferion bwyta eu hunain gyda'r disgyblion. Cynnal arolwg barn. A yw eu hymatebion yn cyfateb â'r tueddiadau cenedlaethol? Trefnu bod y disgyblion yn cadw dyddiaduron am wythnos ar y bwyd maent yn ei fwyta. (Gellid gwneud hyn yr wythnos flaenorol). Y disgyblion i edrych ar eu harferion bwyta i gael cyfleoedd i fwyta'n iachach.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Rhoi rhywfaint o ddadansoddiad o graffiau, trafod y data yn syml, deall meintiau dognau.
Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn: Rhoi rhesymau dros dueddiadau mewn graffiau, trafod data i ateb damcaniaethau, dysgu am yr ymgyrch 'pump y dydd'.
Bydd rhai disgyblion yn: Trafod data yn effeithiol, llunio casgliadau da, deall manteision bwyta'n iach, newid eu harferion eu hunain.

Adnoddau: Taflunnydd/copïau o'r graffiau ar gyfer y gweithgardd cychwynnol, data wedi'i lwytho. Gwybodaeth rydych am ei defnyddio o'r stori 'Pump y dydd' yn http://www.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=739

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth: Bydd angen i'r holl ddisgyblion weld y graffiau cychwynnol. Gall y disgyblion weithio mewn parau, neu yn unigol yn dibynnu ar nifer y cyfrifiaduron sydd ar gael. Trafodaeth ac adborth gan y dosbarth cyfan.

Geiriau allweddol: Ffrwythau, Llysiau, Bwyd sothach, Rhagweld, Pump y dydd, Bwyta'n iach, Dogn, Bwyta, Damcaniaeth, Trafod Data, Arolwg.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd** TGCh Blwyddyn 7/8 Darganfod pethau Dylunio a Thechnoleg Blwyddyn 7 7ai Deall Bwyd Gwyddoniaeth Blwyddyn 8 Uned 8A Bwyd a Threulio AIBCh 2b Cadw'n Iach

Gwybodaeth Flaenorol:
Dadansoddi graffiau, Gallu holi cwestiynau, Trafod taenlenni.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafod taenlenni, holi ac ateb, adborth gan y disgyblion

Gweithgaredd Ymestyn: Cymariaethau â bwydydd eraill, Casglu data a dadansoddi beth sydd ar gael yn ystod amser chwarae ac amser cinio'r ysgol.

Syniadau Gwaith Cartref: Dyddiadur o beth sy'n cael ei fwyta mewn wythnos, dadansoddi, newid deiet

Nodiadau:
I ddechrau:
Cymerir y data hwn o Gam 3 y prosiect CensusAtSchool yn www.censusatschool.ntu.ac.uk.
Prif dasg:
Llwythwch y daenlen i fan hygyrch cyn y wers. Cyflenwir y data gan yr Arolwg Bwyd Cenedlaethol, MAFF, ac Arolwg Omnibws, SYG. Dyma rai damcaniaethau posibl: po hynaf yr ydych y mwyaf o ffrwythau a llysiau y byddwch yn ei fwyta, neu mae pobl yn bwyta mwy o ffrwythau wedi'u prosesu na ffrwythau ffres. Ystyriwch ddulliau o drafod data. I gael help ewch i adran gysylltiadau'r wefan hon neu i http://www.censusatschool.ntu.ac.uk/teachers.asp
Sesiwn lawn:
Ewch i http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=739

Eich nodiaau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk